

WILLIAMS, Syr ROGER (1540? - 1595), milwr ac awdur

Enw: Roger Williams
Dyddiad geni: 1540?
Dyddiad marw: 1595
Rhiant: Eleanor Williams (née Vaughan)
Rhiant: Thomas Williams
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: milwr ac awdur
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Milwrol
Awdur: William Llewelyn Davies

Y mae tri gŵr o'r enw hwn ac y mae'n bwysig gwahaniaethu rhyngddynt-(1) Syr Roger Williams (1604? - 1683), sefydlydd talaith Rhode Island, U.D.A.; fe'i hawlid ef fel Cymro, yn ddiweddarach fel gŵr o Gernyw, ond erbyn hyn gellir awgrymu mai mab ydoedd i James Williams, ' citizen and merchant taylour of London,' a'i wraig Alice; (2) Roger Williams, aelod o deulu Penrhos, sir Fynwy (cyfenwid y teulu yn Addams-Williams yn ddiweddarach; gweler dan **Williams, Syr Trevor**); a (3) Syr Roger Williams (1540? - 1595), sef hwnnw y cyfeirir yn fyr ato yma.

Fel yr ail Roger Williams, yr oedd Syr Roger Williams, y milwr a'r awdur, yn aelod o deulu Penrhos - yn fab i Thomas Williams a'i wraig Eleanor, merch Syr William Vaughan. Dywed Wood iddo dreulio peth amser yn Rhydychen (Coleg y Trwyn Pres). Aeth yn filwr yn gynnar yn ei oes; yn wir, nid oedd ond tua 17 oed pan fu'n ymladd yn S. Quentin. Treuliodd, bron y gweddill o'i oes ar gyfandir Ewrop fel ' soldier of fortune,' a dyfod yn adnabyddus fel gŵr gwrol a beiddgar ac fel arbenigwr yng ngwyddor rhyfela. Ym mis Ebrill 1572 fe'i ceir yn un o'r tri chan gŵr a aeth i Flushing gyda **capten Thomas Morgan** i gynorthwyo'r Is-Elmyn yn erbyn lluoedd Sbaen; bu hefyd yn ymladd mewn cysylltiad â Syr Humphrey Gilbert a **Syr Philip Sidney**. O'r Iseldiroedd aeth i'r Almaen - am fanylion pellach gweler yr erthygl arno yn y *D.N.B.* Cafodd ei wneuthur yn farchog gan iarll Leicester (1586 ?). Ei gyhoeddiad cyntaf oedd *A Brief Discourse of War*, 1590; dilynwyd hwnnw gan *Newes from Sir Roger Williams*, 1591. Yn 1618 (sef wedi marw'r awdur) cyhoeddwyd *Actions of the Low Countries* (gweler adargraffiad yn Somers' *Tracts*, 1809, a chyfieithiad yn iaith Holland, 1864, o dan y teitl *Memorien van Roger Williams*. Bu Syr Roger Williams farw 12 Rhagfyr 1595 yn ei gartref yn Llundain a'i gladdu (23 Rhagfyr) yn eglwys gadeiriol S. Paul.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography, a'r ffynonellau a enwir yno

Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, i, 114-5

tabl ach Syr Roger Williams yn y Llyfrgell Genedlaethol, gwaith Thomas Jones ('Twm Sion Cati')

copïau o weithiau'r awdur yn L.L.G.C

Darllen Pellach

John Evans, *Memoirs of the life and writings of the Rev. William Richards, LL.D. : who died at Lynn, September 13, 1819 [i.e. 1818] in the sixty-ninth year of his age. With some account of the Rev.*

Roger Williams, founder of the state of Rhode Island, as well as the first assserter of complete religious liberty in the United States of America (Chiswick 1819)

Erthygl Wicipedia: Roger Williams

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 64053215

Wikidata: Q7359127

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwciis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwedd
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government